

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

- Cyfarfod:** 18 Chwefror 2011
- Preseanol:** Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr J East, Ms L Fowlie, Mr M Goodwin, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Ms E Riches, Dr D M Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).
- Ymddiheuriadau:** Dr G Clarke, Mr R Dart, Mr H Ellis, Mr D Fordham, yr Athro J Hughes, Ms D Giles, yr Athro M Khan, Mrs L Meadows, Mr E Roberts, yr Athro P Spencer.

366. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2010, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

367. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 359(b) Lleoedd wedi'u Hamserlennu'n Ganolog:

Cadarnhawyd bod gwaith yn dal i fynd rhagddo i ganfod perchnogaeth dechnegol a chyffredinol ar fannau megis labordai a amserlennir yn ganolog.

(b) Cofnod 361 Arolwg Peryglon Biolegol:

Nodwyd y byddai Arolygwr Arbenigol AGID dros Beryglon GM yn ymweld â'r Brifysgol er mwyn arolygu'r trefniadau yn Chwefror / Mawrth 2011.

Roedd nifer o staff a chontractwyr Ystadau a Chyfleusterau wedi cael hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, a byddai hyfforddiant yn cychwyn ym mis Mawrth ar gyfer staff Domestig ac eraill.

(c) Cofnod 364 Adroddiad Mentrau Iechyd:

Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu partneriaeth â Chyngor Gwynedd, i edrych ar weithgareddau ar y tir ac mewn dŵr i helpu pobl i ddatblygu cryfder a ffirwydd, gan gefnogi ffirwydd pobl mewn gwaith. Llunnir rhaglen o fentrau ar y cyd maes o law, a chyflwynir Papur i'r Grŵp Tasg Gweithredu Iechyd a Diogelwch i'w gefnogi a'i gymeradwyo.

(ch) Cofnod 365(c) Rheoli ar Gontractwyr:

Nodwyd bod pryder ynglŷn â gweithredoedd cysylltiedig â'r Ystadau a oedd eto i'w cyflawni wedi'i fynegi yn y Pwyllgor I a D, yn hytrach nag wrth y Gwasanaeth Ystadau a Chyfleusterau neu'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, yn y lle cyntaf. Roedd yn well bod eitemau o'r fath yn cael eu codi â'r Adran berthnasol, yn y lle cyntaf.

368.

ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU AR DDIOGELWCH

Adroddwyd bod y Grŵp Tasg hwn yn cyfarfod unwaith y mis, ac y trefnir cyfarfodydd arbennig yn ôl yr angen. Mae'r eitemau arwyddocaol isod wedi'u trafod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

- i. Bu trafodaeth ar yr Asesiad Risg Corfforaethol ar I a D a'r model cynllunio arfaethedig.
- ii. Cynhaliwyd sesiwn gyfarwyddo i Uwch Reolwyr, a agorwyd gan Brif Weithredwr AGID fel prif anerchydd, ar 7 Chwefror. Roedd llawer o Benaethiaid Colegau, Ysgolion ac

Adrannau wedi mynd i'r sesiwn.

- iii. Ystyriwyd Adroddiad Cychwynnol ar Gynllun Teithio, sy'n cynnwys materion megis hyrwyddo cerdded, seiclo, neu rannu ceir, ac mae bellach yn cael ei ystyried gan grwpiau eraill, cyn y ceir ymgynghoriad arall o fewn y Brifysgol.

369. SAFONAU POLISI I'W CYMERADWYO

Cyflwynwyd crynodeb byr ar bwrpas a gofynion Safonau Polisi ar Reoli Dirgryniad yn y Gweithle, Hyfforddiant a Gwybodaeth ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch, a Theithio Dramor. Cyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- i. Rheoli Dirgryniad yn y Gweithle: Cymeradwywyd y Polisi.
- ii. Hyfforddiant a Gwybodaeth ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch: Cymeradwywyd y Polisi, yn amodol ar fân ddiwygiadau.
- iii. Teithio Dramor: Cymeradwywyd y Polisi, yn amodol ar fân ddiwygiadau ac ar sefydlu'r system cymorth ar-lein er mwyn symleiddio'r asesiad risg sy'n ofynnol a threfn yswiriant y Brifysgol.

370. DIWEDDARIAD AR GYNHALIAETH IECHYD I STAFF

Nodwyd bod yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar i ddod yn aelod parhaol o Banel Trafod y Fonesig Carol Black ar Iechyd Galwedigaethol, a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Bu trafodaeth ar y Rhaglen Iechyd. Yn fyr:

- i. Mae Gwyliadwriaeth Iechyd, Archwiliadau Iechyd, Ymgyrchoedd Hybu Iechyd a Rheolaeth ar Absenoldeb trwy Salwch yn gyfredol.
- ii. Ffliw oedd yr achos mwyaf o absenoldeb trwy salwch yn ystod y gaeaf, ond nid yw graddfa'r absenoldeb yn fwy na'r blynyddoedd a fu.
- iii. Ar hyn o bryd, mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol ac Adnoddau Dynol wrthi'n cynorthwyo yn achos 17 o achosion o salwch tymor hir.
- iv. Mae ymgyrchoedd Hybu Iechyd yn cynnwys yr Her Colli Pwysau sydd wedi cynnwys cymorth gan Arlwyio i Chi er mwyn cyflwyno dewisiadau bwyta'n iach, ac ymdrechion gan yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer i hybu ymarfer corff a ffitrwydd.

371. HUNAN-WERTHUSIAD COLEGOL AC ADRANNOL 2010

Cyflwynwyd crynodeb byr o'r arolwg hunan-werthuso. Nodwyd bod arolwg 2010 yn dibynnu ar y wybodaeth a roddir gan Golegau ac Adrannau ac, fel ciplun, mae wedi amlygu'r meysydd isod lle mae angen gwella:

- i. Cadw cofnodion
- ii. Asesiadau Risg

Nodwyd y dylid trin sgorio fel arwydd o berfformiad yn unig, a hynny am fod y data yn ymwneud â pherfformiad y mae'r Adrannau/ Colegau eu hunain wedi adrodd arno, heb gynnwys dull archwiliedig.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad, a chytunwyd y dylid hefyd ddefnyddio'r drefn o roi adborth i Golegau ac Adrannau unigol er mwyn cynorthwyo i ganfod a yw'r data a gesglir yn gywir, a hefyd yn werthfawr.

372. ARCHWILIAD SYSTEMAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynwyd crynodeb byr o'r archwiliadau a wnaethpwyd ar y Coleg Gwyddorau Naturiol, y Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithasol a Chyfraith, a'r Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol. Yn benodol, nodwyd:

- i. Bod rheolaeth pob Coleg ar berfformiad iechyd a diogelwch wedi'i disgrifio fel Da neu Dda Iawn.
- ii. Bod themâu a ddaeth i'r amlwg o'r Archwiliadau yn cynnwys anawsterau ynglŷn â storio data, ac eglurhad ar swyddogaethau a chyfrifoldebau.
- iii. Y câi Colegau fudd pe llunid of polisiau a threfniadau safonol y gellir eu haddasu wedyn yn rhwydd.

Adroddwyd bod Adroddiadau ar Archwiliadau wedi'u cyflwyno i'r Grŵp Tasg Gweithredu Iechyd a Diogelwch i'w hystyried, ac y cytunwyd i ohirio, dros dro, yr Archwiliadau, hyd nes y llunid systemau rheoli safonol ar iechyd a diogelwch o fewn y Colegau, a ffurflen yng nghyswllt hynny. Mae'r Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol wedi i gynorthwyo yn hyn o beth, a bydd gwaith yn cychwyn ar wythnos 21 Chwefror. Ar ôl cael eu cwblhau, defnyddir y dogfennau a'r trefniadau gyda Cholegau eraill, ac ail-gychwynir ar y drefn archwilio.

373. AROLYGON AR THEMA IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynwyd adroddiadau'r Arolygon isod ar themâu cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch:

i. Polisi Dim Smygu

Yn yr Adroddiad, soniwyd bod Gweithgor, a oedd wedi'i sefydlu i arolygu'r Polisi presennol ar Beidio ag Ysmygu wedi nodi nifer o anawsterau o ran cydymffurfio â rheol bresennol y Brifysgol ynglŷn â 5 medr, ac wedi archwilio'r dewisiadau isod:

- a) Gwaharddiad llwyr: Bernid na fyddai modd gweithredu hwn oherwydd nodweddion 'mynediad agored' rhai manau o fewn y Brifysgol, e.e. Parc y Coleg.
- b) Gwella'r dull o weithredu'r rheol 5 medr.
- c) Gwell arwyddion, i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r rheol 5m.
- d) Mannau Smygu Neilltuedig: Bernid y byddai'n anodd gweithredu hynny mewn rhai manau, o ran nodi'r man ysmegu a gweithredu'r rheol wedyn.

Dywedwyd mai gweithredu 'Mannau Ysmegu', ynghyd â gwella'r modd y gweithredir y rheol 5m, oedd dewis y Gweithgor.

Nodwyd bod y Grŵp Tasg Gweithredu Iechyd a Diogelwch wedi ystyried yr Adroddiad, ac awgrymu'r syniadau isod, yn y lle cyntaf:

- e) Dylid codi arwyddion ynglŷn â'r rheol 5m ar draws yr ystâd.
- f) Dylid mynd ati'n unswydd i weithredu'r rheol bob hyn a hyn mewn manau allweddol a lle ceir problemau.
- g) Dylid cynnal asesiad arall ar ba mor ymarferol fyddai cyflwyno gwaharddiadau lleol ar ysmegu mewn manau allweddol, megis o flaen Prif Adeilad y Celfyddydau.
- h) Dylid asesu ymhellach pa mor ymarferol fyddai creu manau ysmegu ar y prif safleoedd.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad, a chytuno nad oes dim un ateb sengl nac

ateb syml i'r problemau a geir. Sylwyd mai pwysau gan gyfoedion oedd y dull gorau o weithredu'r rheol, a dylid bob amser alw'r Staff Diogelwch os ceir unrhyw fgythiad o wrthdaro.

ii. Defnydd Diogel ar Systemau Pwysedd

Bu'r Arolwg yn ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rheoli risgiau o systemau pwysedd a cynwysyddion ar draws y Brifysgolion. Dyma brif ganfyddiadau'r Arolwg:

- a) Nad yw manylion yr holl gynwysyddion na systemau pwysedd wedi'u cadw'n ganolog, felly nad yw Arolygon Statudol yn gynhwysfawr.
- b) Nad yw'r Adran/ Coleg sy'n defnyddio'r rhain bob amser yn cadw Cynlluniau Archwilio ysgrifenedig.
- c) Nad oes arwydd gweledol na label wedi'i osod wrth gynwysyddion na systemau a fyddai'n cadarnhau'n rhwydd eu bod ar y Gofrestr ganolog ac yn cael Archwiliadau gan Beiriannydd Cymwys.
- d) Bod cyfrifoldebau a dyletswyddau, ar adegau, yn aneglur, ac y gallent, o'r herwydd, arwain at beidio â gweithredu ar argymhellion.

Cadarnhawyd bod y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Swyddog Yswiriant ac eraill ar y posibilrwydd o gyflwyno system ddiwygiedig ar reoli defnydd diogel ar systemau pwysedd a chynwysyddion. Unwaith y ceir cytundeb, adnewyddir Nodyn Cyfarwyddo presennol y Brifysgol.

374.

ASESIAD RISG CORFFORAETHOL A MODEL CYNLLUNIO NEWYDD AR IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynwyd crynodeb byr ar y gwaith o arolygu'r Asesiad Risg Corfforaethol presennol ar Iechyd a Diogelwch.

Nodwyd bod yr ymarfer yn cynnwys canfod y peryglon a'r risgiau o bwys sy'n bodoli yn y Brifysgol, ac asesu'r rhain wrth ochr safonau perfformio penodol. Y prif fwriad yw dangos sut y mae'r Brifysgol yn perfformio, fel sefydliad ac yng nghyswllt peryglon penodol.

Cwblheir rhan gyntaf yr ymarfer yn Ebrill 2011, a'i thrafod wedyn â'r Pwyllgor Gweithredu ar Iechyd a Diogelwch.

375.

UNRHYW FATERION ERAILL

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal am 10am ar 20 Mai 2011.

Cynhelir cynhadledd nesaf Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-Orllewin Cymru ar 15 Medi 2011, ac anogir yr holl aelodau i fod yn bresennol.